**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Medi 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Tony Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 11 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | DOGFEN UWCH-GYNLLUN A GWELEDIGAETH CANOL TREF Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cefnogi'r uchelgeisiau hirdymor a'r 8 syniad allweddol sydd wedi'u nodi yn nogfen y Weledigaeth (Atodiad 2), a*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau a'i fod yn ymrwymo i'r Cyngor ganolbwyntio ar gyflawni'r effeithiau cadarnhaol, hirdymor ar les sydd wedi'u cynnwys ynddo.* |
| **6** | CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN - CYFANSODDIAD Y BWRDD LLYWODRAETHU STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo cyfansoddiad y Bwrdd Llywodraethu Strategol sydd wedi'i nodi ym mharagraff 4.10 o'r adroddiad fel a ganlyn -*<br><br>• *Prif Weithredwr neu ei chynrychiolydd enwebedig (Cadeirydd)*<br>• *Yr Arweinydd*<br>• *Aelod Arweiniol Cyllid*<br>• *Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol*<br>• *Cadeirydd o Bwyllgor Craffu* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | • *Swyddog Monitro (neu gynrychiolydd enwebedig)*<br>• *Swyddog S151 (neu gynrychiolydd enwebedig)*<br>• *Rheolwr Contractau*<br>• *Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **7** | CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN - CYFANSODDIAD Y BWRDD CYFARWYDDWYR | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo cyfansoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni fel y nodir yn yr adroddiad ac argymell y cyfansoddiad hwn i'r Cyngor -*<br><br>• *Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus*<br>• *Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth*<br>• *Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd*<br>• *Rheolwr Gyfarwyddwr*<br>• *Cyfarwyddwr Annibynnol x2*<br>• *Aelod nad yw'n aelod o'r Cabinet*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **8** | ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19 | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2018/19 a'i chydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Darbodus gofynnol, fel yr adroddwyd yn adroddiad* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Rheoli Trysorlys Blynyddol 2018/19 (Atodiad 1 yr adroddiad), a*<br><br>*(b) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*<br><br>*(b) cymeradwyo defnyddio'r Grant Cynnal Ysgolion sydd wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, fel yr argymhellir gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac a fanylir arno yn yr adroddiad hwn ac atodiadau 5, 6 a 7.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **11** | ESTYNIAD I GYTUNDEB GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r buddion ariannol a buddion eraill sy'n gysylltiedig ag ymestyn y contract gyda Civica;*<br><br>*(b) cymeradwyo estyniad o 3 blynedd i'r contract gyda Civica i ddarparu'r Cytundeb Gwasanaeth a Reolir ar gyfer Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau, a*<br><br>*(c) cadarnhau bod yn rhaid gweithredu'r penderfyniad ar unwaith yn unol â pharagraff 7.25 yng nghyfansoddiad y Cyngor.* |